Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Caergybi

Caergybi
Ynys Môn
LL65 1NP

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Caergybi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Caergybi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Saesneg gyda Chymraeg sylweddol |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 843 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 728 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 115 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 21.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 30.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 20.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/05/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/02/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Ceir ymdeimlad amlwg o gymuned yn Ysgol Uwchradd Caergybi, lle mae staff wedi ymrwymo i gefnogi lles disgyblion. Mae gweledigaeth y pennaeth am gynwysoldeb a disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion yn sail i'r ymrwymiad hwn. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dosturiol a chaiff ei gefnogi gan uwch dîm arweinyddiaeth ymroddgar. Mae arweinwyr wedi gweithio'n effeithiol i sefydlogi'r ysgol yn dilyn heriau gweithredol a achoswyd gan RAAC (Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth). Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi cael effaith ddigonol ar wella ansawdd yr addysgu a datblygiad medrau disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, ceir perthnasoedd cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion, sy'n cyfrannu at awyrgylch tawel a chynhyrchiol. Mae mwyafrif yr athrawon yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth effeithiol ac yn cynnig gweithgareddau dysgu addas i ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus, ac yn cydweithio'n effeithiol. Mewn ychydig iawn o achosion, mae addysgu ysbrydoledig yn arwain at gynnydd eithriadol o dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ganlyniad i ddiffyg her, holi gwan, amcanion dysgu aneglur, a chynllunio gwersi yn wael.

Er gwaethaf gwelliannau diweddar mewn cynllunio, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn rhy gyfyngedig. Mae gan fwy na hanner y disgyblion fedrau darllen gwan pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol yn yr agwedd hon dros gyfnod. At ei gilydd, mae'r cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig yn bwrpasol, er bod lleiafrif o ddisgyblion yn cael trafferth â chywirdeb gramadegol a sillafu. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso cysyniadau mathemategol sylfaenol yn briodol, ond nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn mewn pynciau heblaw mathemateg.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd nodedig yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae disgyblion yn yr 'Uned Iaith' yn elwa ar drochi iaith, tra bod y ffrwd ddwyieithog a gyflwynwyd yn ddiweddar ym Mlwyddyn 7 yn cryfhau ymrwymiad yr ysgol i feithrin amgylchedd dwyieithog ymhellach. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn gwneud cynnydd priodol, er nad oes ganddynt hyder yn aml wrth siarad.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, gan ddarparu ystod eang o ddewisiadau pwnc yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion partner i ymestyn ei harlwy yn y chweched dosbarth, gan sicrhau bod disgyblion yn gallu elwa ar ystod amrywiol o gyrsiau. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol yn strwythuredig a pherthnasol. Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys clybiau, ymweliadau diwylliannol, a chyfleoedd arwain.

Mae presenoldeb yn destun pryder sylweddol. Er y bu ychydig o welliant yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae cyfraddau presenoldeb ymhell islaw lefelau cyn y pandemig ac yn is na'r rhai mewn ysgolion tebyg. Mae bwlch sylweddol yn bodoli rhwng presenoldeb pob un o'r disgyblion a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae arweinwyr wedi rhoi systemau olrhain ar waith i fonitro presenoldeb, ond nid ydynt yn dadansoddi tueddiadau yn ddigon aml i nodi patrymau absenoldeb sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r ysgol wedi ailsefydlu ei phrosesau sicrhau ansawdd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar gydymffurfio â pholisi ysgol yn hytrach nag effaith yr addysgu ar ddysgu. Er bod y llywodraethwyr yn gefnogol iawn, nid ydynt bob amser yn cynnig lefel addas o her i arweinwyr.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Gwella presenoldeb a phrydlondeb

A2. Gwella ansawdd yr addysgu, yn enwedig lefel yr her a gynigir i ddisgyblion

A3. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd, darllen a rhifedd disgyblion

A4. Gwella hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan sicrhau bod arweinwyr yn gwerthuso darpariaeth yn sgil ei heffaith ar gynnydd a lles disgyblion

A5. Sicrhau bod y corff llywodraethol yn cynnig her addas i arweinwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

### Gwelliant sylweddol

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae natur gadarnhaol y perthnasoedd rhwng athrawon a disgyblion yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn nodwedd nodedig. Ceir amgylchedd dysgu parchus a chefnogol sy'n arwain at ymddygiad da mewn gwersi, yn y rhan fwyaf o achosion. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu; maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau athrawon, yn dangos diddordeb yn eu gwaith, ac yn cydweithio'n effeithiol mewn parau neu grwpiau. Mae llawer o athrawon yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth effeithiol, gan helpu disgyblion i setlo'n gyflym. Maent yn fodelau iaith cadarnhaol ac yn defnyddio'r Gymraeg trwy gydol eu gwersi, sy'n gwella amlygrwydd disgyblion i'r iaith.

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth pwnc a'u dealltwriaeth ohono. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynnig gweithgareddau dysgu difyr ac esboniadau clir i ddisgyblion, ac yn canolbwyntio'n briodol arnynt yn caffael terminoleg sy'n benodol i bwnc. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ymgysylltu, ac yn dilyn rheolau ac arferion ystafelloedd dosbarth, gan gyfrannu at awyrgylch dysgu cynhyrchiol.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae'r gwersi hyn wedi'u strwythuro'n dda, gyda gweithgareddau sy'n adeiladu'n rhesymegol ar wybodaeth flaenorol, gan alluogi disgyblion i ddyfnhau eu dealltwriaeth. Mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn annog cyfranogiad gweithredol. O ganlyniad, mae disgyblion yn parhau i ganolbwyntio ar gysyniadau pwnc, ac yn eu cymhwyso, ag annibyniaeth gynyddol.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda oherwydd addysgu ysbrydoledig. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi'u cynllunio'n fedrus sy'n dal dychymyg disgyblion ac yn darparu lefel uchel iawn o her. Mae athrawon yn cyflwyno'r gwersi hyn ag asbri, gan ddefnyddio cwestiynau treiddgar sy'n annog meddwl yn annibynnol ac yn meithrin dealltwriaeth ddofn.

Nid yw lleiafrif o athrawon yn cynllunio gwersi'n ddigon effeithiol, sy'n arwain at gynnydd cyfyngedig gan ddisgyblion. Nid yw'r gwersi hyn yn cynnig digon o her, ac maent yn cynnwys diffygion eraill fel amcanion dysgu aneglur, gweithgareddau wedi'u strwythuro'n wael ac ychydig iawn o fewnbwn gan athrawon.

Mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n hwyr neu maent yn absennol, sy'n effeithio ar barhad eu dysgu. Yn ychwanegol, yn llyfrau tua hanner y disgyblion, mae bylchau a gwaith anghyflawn, sy'n adlewyrchu diffyg ymgysylliad â thasgau dysgu.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau caeedig yn briodol i wirio bod disgyblion yn galw i gof. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau agored yn fuddiol hefyd i wirio dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, ychydig o athrawon yn unig sy'n defnyddio holi'n effeithiol i ysgogi meddwl dyfnach ac annog disgyblion i ymhelaethu ar eu syniadau.

Mae athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig addas i ddisgyblion ym mwyafrif yr achosion, ond mae ei ansawdd a'i effaith yn rhy amrywiol. Mae lleiafrif yr adborth hwn yn dra-chywir ac adeiladol, gan gynnig cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion wella'u gwaith. Mewn mwyafrif o achosion, mae disgyblion yn ymgysylltu'n gynhyrchiol â'r adborth hwn, ond yn y gweddill, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'w sylwadau.

Trwy weithio gydag athrawon, mae arweinwyr wedi cynllunio ystod o gyfleoedd yn ddiweddar i ddatblygu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion ar draws meysydd y cwricwlwm. Mae'r cyfleoedd hyn yn dechrau cael eu hintegreiddio yng nghynllunio'r cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ateb cwestiynau syml yn briodol. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau siarad. Yn yr enghreifftiau hyn, mae disgyblion yn ymateb yn dda, gan gynnig ymatebion estynedig mewn trafodaethau ystafell ddosbarth neu i gwestiynau eu hathrawon. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar eirfa gyffredinol addas a geirfa sy'n benodol i bwnc, ac mae ychydig ohonynt yn mynegi eu hunain yn effeithiol, gan roi ymatebion mwy soffistigedig.

Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwrando'n ddigon gofalus, ac mae ychydig ohonynt yn amharod i gyfrannu. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn meddu ar eirfa eang, sy'n cyfyngu ar eu gallu i esbonio'n hatebion yn glir neu'n hyderus. Ym mwyafrif yr achosion, nid yw disgyblion yn ymhelaethu ar eu syniadau.

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae gan dros hanner y disgyblion fedrau darllen gwan. Nid ydynt yn datblygu'r medrau hyn yn ddigonol wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Ar draws y cwricwlwm, cynigir gweithgareddau darllen iddynt sy'n canolbwyntio'n bennaf ar wella medrau sylfaenol, fel dod o hyd i wybodaeth o destunau, llithrddarllen a sganio, a phrawfddarllen. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn gyson ar draws pynciau. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau fel dod i gasgliad, cyfosod, a dadansoddi beirniadol, wedi'i datblygu'n ddigonol.

Ar draws y cwricwlwm, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynhyrchu ysgrifennu estynedig ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu darnau diddorol gyda chymorth gan feini prawf llwyddiant defnyddiol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddifyr ac yn cyfleu eu syniadau ag eglurder. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau ysgrifennu gwan ac maent yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol yn aml, dro ar ôl tro. Mewn ychydig o achosion, mae gwaith wedi'i sgaffaldio'n ormodol, sy'n cyfyngu ar ddatblygiad medrau disgyblion wrth ysgrifennu'n annibynnol.

Mae arweinwyr wedi gweithio gydag athrawon yn ddiweddar i gynllunio ystod o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws meysydd perthnasol y cwricwlwm. Mae arweinwyr pwnc yn dechrau datblygu'r cyfleoedd hyn yn fuddiol.

O roi'r cyfle iddynt, mae mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth am gysyniadau fel bondiau rhif yn addas i ddatrys problemau. Mae llawer ohonynt yn galw tablau lluosi i gof yn gywir, a gyda chymorth, yn cymhwyso fformiwlâu i gyfrifo mesurau cyfansawdd fel cyflymder neu ddwysedd. Fodd bynnag, yn aml, mae athrawon yn rhoi llwybrau byr i ddisgyblion wrth aildrefnu fformiwlâu sy'n cyfyngu ar ddatblygiad eu dealltwriaeth gysyniadol. Mae gan ychydig o ddisgyblion wybodaeth ansicr am dechnegau mathemategol ac yn cael trafferth eu cymhwyso yn eu cyd-destun. Er bod rhai pynciau perthnasol yn cynllunio'n effeithiol i wella medrau rhifedd disgyblion, mae pynciau eraill yn darparu cyfleoedd annigonol. Yn rhy aml, mae diffyg her ddigonol mewn tasgau rhifedd, sy'n cyfyngu ar ddatblygiad medrau disgyblion.

Gyda chymorth, mae mwyafrif o ddisgyblion yn llunio graffiau gwasgariad yn gywir ac yn tynnu llun llinellau synhwyrol sy'n gweddu orau. Fodd bynnag, nid ydynt yn dadansoddi'r graffiau hyn yn gyson i lunio casgliadau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael trafferth llunio graffiau'n gywir ac yn wynebu heriau wrth greu graddfeydd echelau synhwyrol, plotio data, neu dynnu llinellau sy'n gweddu orau.

O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol, gan ddefnyddio rhaglenni fel cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur a thaenlenni yn annibynnol. Maent hefyd yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng gan ddangos creadigrwydd a chymhwysedd technegol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn anwastad ar draws pynciau.

Mae disgyblion yn dangos medrau creadigol cryf mewn pynciau fel cerddoriaeth a chelf, gan greu cyfansoddiadau gwreiddiol ac efelychu arddulliau arlunwyr nodedig.

**Ciplun: Darpariaeth i wella amgyffrediad disgyblion o'r Gymraeg**

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd nodedig yn hyrwyddo'r Gymraeg ar draws ei darpariaeth. Ceir ffocws cryf ar ymgorffori'r Gymraeg trwy arddangosfeydd dwyieithog, cyfathrebu â rhieni a defnyddio'r Gymraeg bob dydd o fewn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymgysylltu â'r iaith mewn cyd-destunau dilys ac yn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw. Mae partneriaethau cryf â sefydliadau allanol, fel yr Urdd a Menter Môn, yn ymestyn profiadau disgyblion ymhellach. Er enghraifft, bu'r awdur a'r bardd Anni Llŷn yn arwain gweithdy i ysgrifennu nofel gyda disgyblion Blwyddyn 7. Mae'r 'Parêd Dydd Gŵyl Dewi' blynyddol, a gynhelir mewn cydweithrediad ag ysgolion cynradd bwydo, yn parhau i gynyddu o ran amlygrwydd, gan ddathlu Dydd Gŵyl Dewi mewn ffordd fywiog.

Mae disgyblion sy'n cael eu trochi yn y Gymraeg o fewn yr 'Uned Iaith' yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae llawer ohonynt yn datblygu hyder wrth siarad Cymraeg ac yn cyfathrebu â rhuglder cynyddol. Mae'r ysgol wedi cyflwyno ffrwd ddwyieithog ym Mlwyddyn 7 yn ddiweddar i gryfhau gweledigaeth strategol yr ysgol ymhellach i feithrin amgylchedd mwy dwyieithog.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith. Mae llawer ohonynt yn ynganu geiriau'n glir, ac mae ychydig ohonynt yn ymateb yn hyderus trwy roi atebion estynedig. Fodd bynnag, mae diffyg hyder gan y rhan fwyaf ohonynt i siarad o flaen cyfoedion. Mae gan lawer o ddisgyblion amgyffrediad cadarn o eirfa sylfaenol sy'n eu helpu i nodi manylion allweddol wrth ddarllen detholiadau. Mae lleiafrif ohonynt yn meddu ar eirfa ehangach, sy'n eu galluogi i ddethol gwybodaeth berthnasol o destunau mwy cymhleth. Wrth ysgrifennu, mae mwyafrif o ddisgyblion yn llunio brawddegau syml yn annibynnol, yn cymhwyso rheolau gramadegol yn briodol ac yn sillafu'n gywir. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn dibynnu'n ormodol ar batrymau strwythuredig a rhestrau geirfa wrth ysgrifennu a siarad.

Mae gan yr ysgol ymagwedd addas at roi Cwricwlwm i Gymru ar waith ac mae staff yn addasu eu darpariaeth yn briodol wrth gyflwyno'r cwricwlwm ym Mlwyddyn 9. Mae arweinwyr wedi dechrau gweithio gydag ysgolion cynradd partner i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm. Fodd bynnag, megis dechrau y mae gwaith i sefydlu pontio esmwyth o ran y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion, sy'n cynnig ystod eang o ddewisiadau pwnc. Rhoddir gwybodaeth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion wneud dewisiadau gwybodus o blith ystod eang o gyrsiau TGAU a chyrsiau galwedigaethol. Mae'r rhain yn gweddu i ystod o ddiddordebau disgyblion fel Hyfforddi Chwaraeon, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Busnes, Ffasiwn a Ffabrigau.

Yn y chweched dosbarth, mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion eraill ar Ynys Môn i ehangu'r cynnig cwricwlwm. Mae hyn yn galluogi disgyblion ôl-16 i astudio ystod amrywiol o gyrsiau. Mae agweddau disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol bron ym mhob achos, ond mae cyfradd y cynnydd a wnânt mewn gwahanol wersi yn hynod amrywiol.

Mae staff perthnasol yn rhoi arweiniad buddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 wrth iddynt ystyried eu camau nesaf. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ychydig o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni fynychu lleoliadau profiad gwaith estynedig neu ddilyn cyrsiau cyfoethogi fel cwrs medrau byw yn annibynnol a gyflwynir gan ddarparwyr allanol.

Mae arweinwyr wedi cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion archwilio gwahanol yrfaoedd a datblygu dealltwriaeth o fyd gwaith trwy bartneriaethau cynhyrchiol â busnesau, fel gorsaf bŵer Wylfa. Mae'r ysgol yn gweithio gyda darparwyr allanol hefyd i hwyluso profiad gwaith buddiol ar gyfer pob un o'r disgyblion ym Mlynyddoedd 10 a 12.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno 'Grŵp TED' (Talentog, Eithriadol, Dawnus) sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl herio'u hunain. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddilyn y cymhwyster Mathemateg Ychwanegol a chyfle i ddylunio ac adeiladu car rasio gyda thîm Formula 1.

Mae arweinwyr wedi cynllunio rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) strwythuredig sy'n cynnwys adnoddau sy'n briodol i oedran. Caiff y rhaglen hon ei llywio trwy holi barn disgyblion, ac mae'n cynnwys testunau fel effaith y cyfryngau cymdeithasol, amser sgrin, llinellau cyffuriau, a diogelwch ar-lein. Ceir cyfleoedd gwerthfawr hefyd i helpu disgyblion i baratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol, gan gwmpasu agweddau fel rheoli cyllid personol a chyllid aelwyd, a chyfrifoldebau rhianta.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn cael mewnwelediadau gwerthfawr i amrywiaeth trwy wasanaethau a'r cwricwlwm ABCh, lle maent yn dysgu am hanes a bywydau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae disgyblion yn elwa ar ystod o weithgareddau allgyrsiol sy'n datblygu eu medrau creadigol, corfforol ac arweinyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys clybiau chwaraeon a drama, clwb archaeoleg, côr a gwobr Dug Caeredin.

Mae'r ysgol yn darparu ymweliadau addysgol gwerthfawr sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, gan gynnwys ymweliadau lleol â Chanolfan Ucheldre, sef canolfan gelf leol, ac i weld pantomeim adeg y Nadolig. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar ymweliadau ymhellach i ffwrdd, gan gynnwys yr Amgueddfa Hanes Genedlaethol, y synagog yn Lerpwl a stadiwm pêl-droed Real Madrid.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned, ac yn cynnig amgylchedd gofalgar i ddisgyblion, wedi'i ffurfio gan werthoedd yr ysgol, sef 'Balchder, Parch a Chyfrifoldeb.' Mae cynwysoldeb yn ganolog i'w hethos, yn ogystal â phwyslais cryf ar les disgyblion. At ei gilydd, mae arweinwyr a staff yn trin disgyblion â pharch a charedigrwydd, gan fabwysiadu ymagwedd nad yw'n barnu at gefnogi eu datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i hyn ac yn dangos cwrteisi tuag at eu cyfoedion, at oedolion ac ymwelwyr.

Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o ddarpariaethau i ddiwallu anghenion dysgu ac emosiynol ei disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y 'Parth Dysgu' ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol y mae angen cymorth dwys arnynt â'u medrau sylfaenol.
- Y 'Ganolfan Anogaeth' ar gyfer disgyblion â phroblemau cymdeithasol ac emosiynol, sy'n elwa ar diwtora unigol neu seibiant o ddosbarthiadau prif ffrwd.
- Yr 'Harbwr' ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu a dilyn y cwricwlwm.
- Y 'Rhwyd' ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol ac sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae arweinwyr wedi rhoi strategaeth ymddygiad 'tri cham' fuddiol ar waith i helpu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb, hunanreoli, a gwella. Mae staff bugeiliol yn cefnogi myfyrio ac adfer perthnasoedd yn effeithiol, pan fydd angen. Er bod llawer o staff yn cymhwyso'r strategaeth hon yn dda, nid yw ychydig ohonynt yn dilyn y protocol cytûn ac mae'r diffyg cysondeb hwn yn rhwystro llwyddiant.

Mae hyb bugeiliol yr ysgol, sef 'Ystafell Pawb', yn ofod canolog lle mae swyddogion bugeiliol, y gweithiwr ieuenctid, swyddog therapiwtig a chwnselydd yr ysgol ar gael i roi arweiniad. Caiff disgyblion fynediad hawdd ac uniongyrchol at yr ardal hon lle gallant rannu eu pryderon. Gallant hefyd ofyn am gymorth gan staff cymorth ac arweinwyr trwy ddefnyddio cyfleuster y 'Botwm Lles' ar eu cyfrif personol neu drwy ddefnyddio codau 'Ymateb Sydyn' (QR) sydd wedi'u gosod o gwmpas yr ysgol. Mae penaethiaid blwyddyn yn angerddol am eu gwaith ac yn pwysleisio'n fuddiol bwysigrwydd perthnasoedd iach a pharch ar y ddwy ochr yn eu gwaith gyda disgyblion. Maent hefyd yn cynorthwyo disgyblion yn 'Pwyllfan', sy'n darparu amgylchedd tawel i annog myfyrio ac adfer er mwyn iddynt allu dychwelyd i wersi cyn gynted ag y bo modd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau cryf ag asiantaethau allanol arbenigol fel y gwasanaethau plant, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), yr heddlu, y gwasanaeth lles addysg a gwasanaeth nyrsio'r ysgol. Ceir cydweithio cynhyrchiol hefyd gyda sefydliadau fel Gweithredu dros Blant a Gofalwyr Ifanc sy'n sicrhau bod grwpiau o ddisgyblion yn gallu manteisio ar eu gwasanaethau yn yr ysgol. Mae trefniadau i baratoi disgyblion ar gyfer yr ysgol uwchradd yn gryf, yn enwedig ar gyfer plant bregus a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae arweinwyr yn casglu ystod eang o wybodaeth am les am ymddygiad, agweddau a lles disgyblion. Maent yn rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth hon mewn cyfarfodydd bugeiliol wythnosol. Ochr yn ochr â staff arbenigol, fel y gweithiwr therapiwtig ac asiantaethau allanol, maent yn nodi ymyriadau perthnasol, pan fydd angen. Mae'r ymyriadau hyn, ynghyd ag ystod eang y darpariaethau cymorth, wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac ar gyfradd ostyngol y gwaharddiadau dros gyfnod.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn sicrhau bod ganddynt oedolyn ymddiriedus i roi cymorth iddynt. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyson o ran bodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae proffiliau un dudalen a chynlluniau datblygu unigol yn ymgorffori mewnbwn gan ddisgyblion, rhieni ac arbenigwyr perthnasol, gan gynnig arweiniad defnyddiol ar gyfer staff. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol wrth gynllunio gwersi.

Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac mae bron pob un ohonynt yn gwybod ble i fynd i gael cymorth, os oes angen. Mae systemau i adrodd am, ymateb a rheoli pryderon yn gadarn ac yn cael eu deall yn dda. Mae arweinwyr yn ymateb yn gyflym i unrhyw dueddiadau negyddol mewn agweddau neu faterion sy'n dod i'r amlwg trwy roi cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol iddynt drafod yr agweddau hyn a chynllunio i fynd i'r afael â nhw. Mae trefniadau hyfforddi ac arferion recriwtio diogel yn addas.

Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain. Mae Arweinwyr Iau ar draws yr ystod oedran yn llysgenhadon huawdl ar gyfer yr ysgol ac yn ymfalchïo yn eu rolau. Mae 'Tîm Lles' y disgyblion yn chwarae rhan allweddol yn cefnogi 'urddas mislif'. Mae disgyblion eraill yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol mewn llawer o ffyrdd. Er enghraifft, mae'r 'Tîm Digwyddiadau' wedi cydlynu llawer o weithgareddau codi arian yn llwyddiannus, ac mae disgyblion y chweched dosbarth yn rhedeg siop gwisg ysgol ail-law.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwydnwch cymdeithasol a medrau personol gwerthfawr trwy'r ystod eang o glybiau a gweithgareddau cyfoethogi. Maent yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i gymdeithasu â'i gilydd mewn clwb gemau ac yn mwynhau perfformio fel rhan o'r grŵp drama, côr yr ysgol neu'n cymryd rhan yng nghynhyrchiad cerddorol blynyddol yr ysgol. Mae'r Gynghrair Enfys, sy'n cael ei arwain gan ddisgyblion, yn grŵp LHDTC+ poblogaidd sy'n cyfrannu at ddathliad yr ysgol o amrywiaeth.

Mae uwch arweinwyr wedi cydweithio ag asiantaethau allanol perthnasol i gynnal digwyddiadau gyda'r nos a diwrnodau ffocws ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd i hyrwyddo pwysigrwydd mynychu'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r tarfu ar fywyd ysgol ar ôl darganfod Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn adeilad yr ysgol wedi cael effaith sylweddol ar bresenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Mae presenoldeb ysgol gyfan gryn dipyn yn is na phresenoldeb ysgolion o broffil cymdeithasol-economaidd tebyg. Yn ychwanegol, mae ychydig o ddisgyblion yn aml yn cyrraedd yr ysgol a'r gwersi yn hwyr. Mae'r diffygion hyn yn cael effaith wirioneddol ar eu cynnydd a'u cyflawniad. Er y bu cynnydd mewn cyfraddau presenoldeb yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, mae presenoldeb yn parhau i fod ymhell islaw lefelau cyn y pandemig. Mae bwlch sylweddol rhwng presenoldeb pob un o'r disgyblion a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn gostwng ychydig ond yn parhau i beri pryder, yn enwedig ar gyfer dysgwyr bregus.

Mae uwch arweinwyr, ynghyd â staff bugeiliol, wedi rhoi strategaethau addas at ei gilydd ar waith i olrhain a monitro presenoldeb. Mae adolygiadau tymhorol yn helpu nodi grwpiau o ddisgyblion bregus sydd angen ymyrraeth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a staff yn dadansoddi data yn ddigon aml nac yn rhoi ystyriaeth briodol i bob grŵp o ddysgwyr sy'n colli'r ysgol yn rheolaidd. Mae hyn yn eu hatal rhag gallu nodi ac ymateb i batrymau absenoldeb sy'n dod i'r amlwg. At ei gilydd, nid yw mesurau i wella presenoldeb wedi bod yn ddigon effeithiol.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gefnogol a gofalgar, sy'n rhoi lles disgyblion a staff yn ganolog i waith yr ysgol. Caiff ei weledigaeth uchelgeisiol, am ysgol lle mae pob disgybl yn cyfrif ac yn cael cyfleoedd i ffynnu, ei deall yn dda gan staff. Caiff ei gefnogi gan dîm ymroddgar o uwch arweinwyr sy'n gweithio'n agos gydag ef i gyfleu'r weledigaeth hon. Caiff cyfrifoldebau ymhlith uwch arweinwyr eu dyrannu'n briodol, gan sicrhau bod meysydd allweddol o waith yr ysgol yn cael eu goruchwylio'n briodol.

Yn ystod cyfnod hynod heriol lle bu'n rhaid i'r ysgol addasu ei gweithrediadau dyddiol o ganlyniad i RAAC, bu arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i addasu darpariaeth i sicrhau parhad addysg disgyblion. Ar ôl dychwelyd yn raddol i ddysgu wyneb yn wyneb, mae arweinwyr wedi ailsefydlu prosesau a strwythurau hanfodol yn synhwyrol. Mae hyn yn cynnwys adfer darpariaeth i gefnogi lles disgyblion ar y safle, ailgyflwyno prosesau sicrhau ansawdd, a datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff. Mae'r camau hyn wedi helpu sefydlogi gweithrediadau'r ysgol a chanolbwyntio ymdrechion y staff o'r newydd ar wella darpariaeth ar gyfer disgyblion.

Mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau fel diwylliant diogelu'r ysgol a'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion. Yn ychwanegol, mae arweinwyr wedi darparu cymorth addas i liniaru effaith tlodi ar les disgyblion. Mae gwaith yr ysgol i gefnogi staff i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn gryfder nodedig. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar ansawdd yr addysgu, datblygu medrau disgyblion, a'u presenoldeb.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol a'i rôl o fewn y gymuned leol. Mae'r corff llywodraethol yn datblygu ei rôl yn briodol trwy waith gyda'r awdurdod lleol. Mae llywodraethwyr yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o sut gallant holi a herio arweinwyr yn fwy cadarn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon tra-chywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu mewn meysydd allweddol fel addysgu a dysgu. Nid ydynt yn herio arweinwyr yn ddigon da i sicrhau gwelliannau cynaledig.

Caiff rheolaeth ariannol ei goruchwylio'n briodol gan y bwrsar, y rheolwr busnes, a'r pennaeth. Maent yn rhannu adroddiadau ariannol yn rheolaidd gydag is-bwyllgor y corff llywodraethol, sy'n monitro gwariant yn briodol. Mae'r ysgol yn dyrannu'r grant datblygu disgyblion yn briodol i gefnogi disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau addas i nodi a darparu cymorth bugeiliol ar gyfer y disgyblion hyn, ac yn dechrau ystyried effaith y ddarpariaeth hon ar bresenoldeb.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol o ran rheolwyr llinell. Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch arweinwyr i drafod eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar addysgu a dysgu. Nid yw pwyntiau gweithredu bob amser yn glir, sy'n golygu bod gwaith dilynol cyfyngedig i wirio a gwerthuso effaith unrhyw gamau gweithredu. Er bod arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan reolwyr llinell, mae gormod o amrywioldeb o ran pa mor gadarn y mae uwch arweinwyr yn eu herio a'u dwyn i gyfrif.

Mae arweinwyr wedi ailsefydlu calendr sicrhau ansawdd addas, sy'n ymgorffori gweithgareddau fel arsylwadau gwersi, craffu ar waith, a holiaduron i ddisgyblion a staff. Mae uwch arweinwyr yn hyrwyddo cydweithio yn fuddiol yn y prosesau hyn; er enghraifft, mae arweinwyr y cwricwlwm yn gweithio ochr yn ochr ag uwch arweinwyr i graffu ar waith. Er bod y gweithgareddau hyn yn cynnig mewnwelediadau defnyddiol, mae arweinwyr yn tueddu i flaenoriaethu cydymffurfio â pholisïau addysgu uwchlaw gwerthuso effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi diffygion pwysig â thra-chywiredd digonol.

Caiff blaenoriaethau ysgol gyfan eu deall yn dda gan staff ac maent yn llywio gwaith adrannau yn briodol. Fodd bynnag, er bod arweinwyr ar bob lefel yn cydnabod blaenoriaethau allweddol, nid ydynt bob amser yn cynllunio ar gyfer gwelliant mewn modd digon strategol i sicrhau cynnydd. Nid yw cynllunio gwelliant ar lefel pwnc bob amser yn ymateb i ganfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Ar y cyfan, mae amcanion yn berthnasol ac yn gweddu i flaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion hyn bob amser yn ddigon craff neu heriol. Maent yn aml yn dibynnu'n ormodol ar gwblhau tasgau yn hytrach nag effaith fwriadedig yr amcanion ar gynnydd disgyblion.

Mae staff yn elwa ar ystod fuddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys eu sesiynau 'Coffi a Chacen' wythnosol lle mae staff yn trafod addysgu a dysgu. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd eraill o fewn yr awdurdod lleol i ddatblygu medrau arwain trwy fentrau fel CAMU. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn elwa ar gydweithio gwerthfawr â chydweithwyr o ysgolion eraill i werthuso darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso gweithgareddau dysgu proffesiynol yn ddigon trylwyr i asesu eu heffaith ar addysgu a dysgu. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth glir o sut mae'r mentrau hyn yn dylanwadu ar arfer ystafell ddosbarth.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/04/2025